

CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

DYDDIAD: 28 MEHEFIN 2018

TEITL: CYFRIFON TERFYNOL 2017/18 – ALLDRO REFENIW

**PWRPAS: EGLURO A CHRAFFU'R SEFYLLFA ARIANNOL
TERFYNOL 2017/18**

**GWEITHREDIAD: Derbyn yr wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio
o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2017/18, a
chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli
cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.**

SWYDDOG CYSWLLT: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

AELOD CABINET: CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS

1. Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb "alldro", yn egluro sefyllfa terfynol 2017/18 ac yn dangos y darlun fesul adran. Y ffigyrau yma yw sail i'r datganiadau statudol a gyflwynir fel eitem ar wahân i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yma.
2. Y drefn yn arferol yw ein bod yn cyflwyno'r adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 22 Mai o'r Cabinet sydd ar y tudalennau dilynol.
3. Nodaf fod rhan 5 ac Atodiad 3 i'r adroddiad yma'n delio hefyd gyda'r adolygiad o gronfeydd y Cyngor.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.